Porth i Waith – Llwybr 4 (Llawn Amser)

Mae'r rhaglen interniaeth amser llawn hon dros flwyddyn yng Ngrŵp Colegau NPTC wedi'i chynllunio i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, annibyniaeth a'r gweithle drwy brofiad gwaith bywyd go iawn. Fel arfer, bydd myfyrwyr yn treulio tua dau ddiwrnod yr wythnos mewn lleoliad gwaith ac un diwrnod yn y coleg, gan gyfuno profiad ymarferol â dysgu strwythuredig, datblygiad personol a gosod targedau unigol i gefnogi cynnydd i gyflogaeth a byw'n annibynnol.

Gofynion Mynediad

Croesewir ceisiadau gan fyfyrwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fel arfer, bydd myfyrwyr yn symud ymlaen o raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol presennol neu'n dangos diddordeb clir mewn datblygu sgiliau cyflogadwyedd, y gweithle a byw'n annibynnol.

Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, gall myfyrwyr symud ymlaen i interniaethau â chymorth, prentisiaethau ar y cyd, lleoliadau gwirfoddol neu gyflogaeth â thâl. Nod y cwrs yw darparu sgiliau trosglwyddadwy, hyder a phrofiad i gefnogi cynnydd hirdymor i'r gweithle.

Asesiad

Mae asesiad yn barhaus ac yn seiliedig ar dargedau unigol y myfyriwr, cyflawniad ymarferol a chynnydd yn y gweithle. Caiff cynnydd ei fonitro a'i gofnodi drwy'r broses RARPA, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd, adborth gan gyflogwyr a thystiolaeth o ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd.

Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â chwrs.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

Blwyddyn